



YSGOL I.D. HOOSON

25.06.20

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Yn gyntaf oll, gobeithio eich bod i gyd yn iach ac yn cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod anodd yma. Rydym yn agosau tuag at ddiwedd y tymor a'r flwyddyn ysgol. Yn anffodus, ni fydd yn bosib i drefniadau diwedd tymor fod fel yr arfer, ac felly bydd pethau yn dra wahanol o ran y trefniadau arferol.

Diwedd y tymor - Mae'n debyg fod y mwyafrif ohonoch erbyn hyn wedi clywed y newyddion mwyaf diweddar yn ymwneud a phenderfyniad yr Awdurdod Lleol i beidio agor ysgol am yr wythnos ychwanegol ar ddiwedd y tymor, ac felly bydd ysgolion yn cau am wyliau'r haf ar ddydd Gwener Gorffennaf 17eg. Bydd hyn yn fwy perthnasol i'r rhai ohonoch oedd yn barod wedi hysbysu athro dosbarth eich plentyn o'ch dymuniad i'ch plentyn fynychu tair sesiwn dal i fyny a pharatoi cyn diwedd y tymor. Mae'r trefniadau hyn yn awr yn ei lle. **Hoffwn eich atgoffa os nad oeddech wedi ein hysbysu fod eich plentyn yn bwriadu dychwelyd am y tri sesiwn dal i fyny a pharatoi cyn diwedd y tymor, fel yr hysbyswyd mewn llythyrau blaenorol, yna ni fydd yn awr yn bosib mynychu gan fod trefniadau ac amserlen ar gyfer hyn yn barod wedi ei gwblhau.**

Adroddiadau - Byddwch yn derbyn adroddiad blynyddol ar gyfer eich plentyn cyn diwedd y tymor. Byddwch yn derbyn yr adroddiad drwy e-bost Hwb eich plentyn. Bydd yr adroddiad ychydig yn wahanol o ran cynnwys, gan yn amlwg mae'r amser y mae'r athrawon wedi ei gael gyda'r plant wedi bod yn gymharol lai ar gyfer y flwyddyn hon. Fodd bynnag bydd yr adroddiad yn ystyried ymateb y disgyblion i weithgareddau'r dosbarth hyd at ddiwedd Mawrth pan gaewyd yr ysgol. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i ymateb disgyblion i weithgareddau dysgu o bell. Os ydych yn dymuno derbyn copi papur o'r adroddiad, yna a fydddech cystal â gwneud hyn drwy drefnu gydag athro/awes ddosbarth eich plentyn drwy e-bost.

Dysgu o Bell - O ran yr wythnosau nesaf, hyd at ddiwedd y tymor, bydd y trefniadau presennol o ran gweithgareddau dysgu o bell yn parhau. Mae'r staff yn parhau i gynllunio a pharatoi gweithgareddau a syniadau ar gyfer tasgau y gellid ei gwneud adref er mwyn rhoi cyfleoedd i'r plant barhau i ymarfer ei sgiliau o fewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad i lwyfan dysgu Hwb. Byddwn yn annog y disgyblion i fentro a rhoi cynnig ar y tasgau fydd y staff yn ei baratoi i'r plant. Yn ogystal â rhoi cynnig ar y gweithgareddau, rydym yn annog pob disgybl i fod mor actif â phosibl yn feddyliol ac yn gorfforol bob dydd ond yn deall y gallai hyn fod yn anodd mewn realiti.

Byddwn yn cyflwyno gwybodaeth bellach i chi cyn diwedd y tymor ynglŷn â threfniadau mis Medi. Bydd hwn ar gael i'w weld ar wefan yr ysgol, Schoop a thrydar. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Er bod yr ysgol ar agor i rai disgyblion, gofynnwn yn garedig i chi osgoi dod i'r ysgol a derbynfa'r ysgol heb drefniant blaenorol. Er diogelwch pawb, dylech gyfathrebu drwy'r e-bost neu alwad ffôn os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel.

Rhodri Jones
Pennaeth/Headteacher
Ysgol I D Hooson